Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Craig y Parc

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2024

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Craig y Parc

Ysgol annibynnol ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 19 oed yw Craig y Parc. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ochr yn ochr â chartref plant cofrestredig Tŷ Cwtch, sy'n cynnig gofal preswyl i chwech o bobl ifanc. Ar hyn o bryd, mae 18 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae gan bob un o'r disgyblion gynllun datblygu unigol (CDU), datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun addysg, iechyd a gofal (CAIG). Mae ychydig o ddisgyblion yn blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion ag ystod eang o anghenion corfforol cymhleth ac anawsterau dysgu cysylltiedig. Mae'r rhain yn cynnwys parlys yr ymennydd, dysffagia, cyflwr ar y sbectrwm awtistig ac epilepsi.

Perchennog yr ysgol yw Ambito Care and Education, sy'n gweithredu dan y rhiant-gwmni Salutem Healthcare, sy'n darparu gwasanaethau i bobl ifanc ac oedolion ag anghenion cymorth cymhleth. Mae llawer o ddisgyblion yn yr ysgol wedi'u lleoli gan awdurdodau yn ne Cymru. Mae ychydig o ddisgyblion wedi'u lleoli gan awdurdodau yn Lloegr.

Ymgymerodd y pennaeth presennol â'i swydd ym mis Mehefin 2024. Ymunodd y dirprwy bennaeth â'r ysgol ym mis Mai 2024. Caiff y tîm arweinyddiaeth ei gefnogi gan dîm o dri o athrawon, un CALU, pedwar cynorthwyydd addysgu, tair ar ddeg o gynorthwywyr cymorth dysgu, rheolwr busnes, rheolwr technoleg gynorthwyol, cynorthwyydd cefnogi ymddygiad cadarnhaol, dwy nyrs ysgol, therapydd iaith a lleferydd, therapydd galwedigaethol a ffisiotherapydd.

Adeg yr arolygiad craidd ym mis Mawrth 2023, canfu arolygwyr nad oedd yr ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, roedd yn ofynnol i'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodir isod ar gyfer pob safon:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

- Sicrhau, lle mae gan ddisgyblion ddatganiad, bod yr addysg a ddarperir yn bodloni ei ofynion [1(2)(d)]
- Darparu rhaglen o weithgareddau sy'n briodol i anghenion disgyblion sy'n hŷn na'r oedran ystod statudol [1(2)(f)(ff)]
- Sicrhau bod y cwricwlwm yn darparu cyfle i bob disgybl ddysgu a gwneud cynnydd [1(2)(ff)]
- Sicrhau bod gwersi wedi'u cynllunio'n dda, dulliau addysgu yn effeithiol a gweithgareddau addas yn cael eu defnyddio; sicrhau bod amser dosbarth yn cael ei reoli'n ddoeth [1(3)(c)]
- Sicrhau bod athrawon yn darparu addysg sy'n galluogi pob disgybl mewn dosbarth i wneud cynnydd, gan gynnwys disgyblion â datganiadau a'r rhai y mae'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt [1(5)]

Ar ôl yr ymweliad hwn, gofynnwyd i'r ysgol lunio cynllun gweithredol ôl-arolygiad. Ymwelodd tîm o arolygwyr â'r ysgol ym mis Hydref 2023 a mis Chwefror 2024 i drafod cynnydd yr ysgol yn erbyn ei chynllun gweithredu. Ar ôl hynny, ymwelodd AEF â'r ysgol ym mis Gorffennaf 2024 i werthuso cydymffurfiaeth yr ysgol â'r safonau nad

oedd yn cydymffurfio â nhw'n flaenorol. Adeg yr ymweliad hwn, gwerthusodd AEF gydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Ers adeg yr arolygiad craidd yn 2023, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd priodol o ran ymateb i'r meysydd diffyg cydymffurfio. Erbyn hyn, mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

Mae bron pob un o'r staff yn Ysgol Craig y Parc yn meithrin perthynas gadarnhaol a meithringar â disgyblion. Maent yn datblygu dealltwriaeth gref o ddiddordebau disgyblion ac yn gweithio'n effeithiol i fodloni eu hanghenion corfforol ac emosiynol.

Mae arweinwyr wedi sicrhau bod arlwy therapiwtig ar waith i fodloni anghenion disgyblion. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ystod y profiadau dysgu y mae disgyblion yn eu mwynhau yn ystod y diwrnod ysgol, yn ogystal â datblygu medrau pwysig. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu medrau corfforol ac annibyniaeth yn ystod sesiynau gyrru cadair olwyn.

Mae arweinwyr wedi gwneud addasiadau addas i'r cwricwlwm a'r profiadau dysgu sy'n cael eu cynllunio ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau gwersi rheolaidd ar dir yr ysgol, fel tyfu llysiau yn yr ardd a'r twnnel polythen. Ar ben hynny, mae'r ysgol bellach yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ennill ystod o achrediadau priodol. Er enghraifft, fel rhan o waith Dug Caeredin, mae disgyblion yn dysgu sut i ganu'r piano neu'n ymarfer 'jiu-jitsu'. Mae arweinwyr newydd wedi sefydlu systemau'n gyflym i sicrhau ansawdd addysgu a dysgu. Er enghraifft, caiff cynllunio ei goladu a'i adolygu'n ganolog.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu medrau pwysig yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Er enghraifft, mae ychydig o ddisgyblion yn dysgu sut i gyfrifo gwerth gorau wrth siopa ar gyfer eitemau, gan gymharu eitemau unigol â phecynnau ag eitemau lluosog.

Bu rhagor o newidiadau i arweinyddiaeth yr ysgol ers adeg yr arolygiad craidd. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau diweddar iawn i'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth, yn ogystal â'r oruchwyliaeth a ddarperir gan y sefydliad ehangach. O ganlyniad i'r cyfnod hwn o ansefydlogrwydd, mae llawer o brosesau i oruchwylio gweithrediad yr ysgol wedi'u sefydlu'n ddiweddar iawn.

### Meysydd ar gyfer gweithredu

- Sicrhau bod pennu targedau a chynllunio'r cwricwlwm yn cynorthwyo disgyblion yn gyson i gyflawni camau bach yn eu dysgu yn gynyddol
- Sicrhau bod gweithgareddau sicrhau ansawdd, er enghraifft arsylwi gwersi, yn canolbwyntio'n graff ar y cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud o ganlyniad i addysgu a gweithgareddau cynlluniedig
- Gwella cysondeb defnydd yr holl staff o strategaethau cyfathrebu
- Cryfhau dysgu proffesiynol i staff, gan sicrhau ffocws ar addysgu a dysgu mewn lleoliad arbenigol

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni arolygodd Estyn y safon hon

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni arolygodd Estyn y safon hon

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni arolygodd Estyn y safon hon

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni arolygodd Estyn y safon hon

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni arolygodd Estyn y safon hon

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni arolygodd Estyn y safon hon

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/09/2024